Ceffylau a Merlod

Roedd gan y rhan fwyaf o ffermydd nifer o ferlod a chobiau Cymreig ar ddechrau'r ganrif ar gyfer bugeilio a gwneud gwaith ysgafn ar y fferm neu weithio mewn parau gyda cheffylau gwedd. Cyn sioe gyntaf Tal-y-bont ym 1896, cynhaliwyd rasys trotian ar hyd y briffordd o Benlôn, Tal-y-bont i Daliesin. Roedd Seren Ceulan, pan nad oedd yn ennill pencampwriaethau yn Sioe Frenhinol Cymru neu yn cynhyrchu ebolion a allforiwyd i Awstralia a'r Ariannin, yn tynnu cert gan fynd â bwydydd o 'Central Stores' o gwmpas ffermydd Tal-y-bont, Borth ac Eglwysfach. Yn ei lle daeth y gaseg cob Ceulan Chessie i wneud y gwaith tan i lori fechan gymryd ei lle hithau ym 1948. Roedd gan y ffermwyr gryn falchder yn y 'turnouts' a oeddent yn eu gyrru i'r farchnad neu i'r capel. Roedd Mr Jenkins, Erglodd yn gyrru ei gob mewn cert 'governess' i gapel Nazareth tan 1955.

Pan ffurfiwyd Cymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig ym 1901 roedd y canlynol ymysg y 256 o aelodau: Dr John James, Fagwyr, Mr R. Jones, Gwarcwmbach, Mr J. Morris, Penywern, Mr O. Morris, Tynllechwedd, Mr W. Morris, Brynowen, Mr O.D. Owen, Berthlwyd, Mr J. Thomas, Y Felin, Tre'rddôl a'i nai Mr L.O. Williams, Frongoch a Mr E. J. Williams, Cynnullmawr.

Un o'r cyntaf i gofrestru merlod oedd Mr D. Bodvel Morgan, Fronlas a gofrestrodd Fronlas Peggy, a anwyd ym 1903 ac a fridiwyd gan y diweddar Syr Pryse Pryse Gogerddan o'r march enwog Klondyke a oedd yn eiddo ac a fridiwyd gan John Thomas, Tre'rddôl. Erbyn 1910 roedd Mr Bodvel Morgan a Mr O.D. Owen ar banel Beirniaid Archwilio'r Gymdeithas. Ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf roedd ewythr Mr Owen, y Parchedig Owen o Daihirion, Blaenpennal yn berchen ar farch enwog, Cardigan Briton a chofnodwyd nifer o'i ddisgynyddion fel 'sire: Ceffyl Pregethwr'. Bu Mr Bodvel Morgan yn bridio ac yn berchen ar ferlod a chobiau Cymreig am nifer o flynyddoedd, er enghraifft, Fronlas Model (a anwyd ym 1921) a enillodd yr ail wobr yn nosbarth 32 (cesig) yn Sioe Frenhinol Cymru 1924 ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gyda Mr J.M. Jenkins, Cerrigcaranau

Horses and Ponies

Most farms had several Welsh ponies and cobs at the beginning of the century for shepherding and for doing the light work on the farm or working in pairs with the shire horses. Prior to the first Tal-y-bont Show in 1896 trotting races were held along the main road from Penlôn, Tal-y-bont to Taliesin. Seren Ceulan, when not winning championships at the Royal Welsh Show or producing foals which were exported to Australia and the Argentine, used to pull a cart delivering feedstuffs from Central Stores around the Tal-y-bont, Borth and Eglwysfach farms. She was replaced by the cob mare Ceulan Chessie who continued until replaced by a small lorry in 1948. The farmers were very proud of the 'turnouts' which they drove to market or to chapel. Mr Jenkins, Erglodd drove his cob in a governess cart to Nazareth Chapel until 1955.

When the Welsh Pony and Cob Society was formed in 1901 the following were amongst its 256 members: Dr John James, Fagwyr, Mr R. Jones, Gwarcwmbach, Mr J. Morris, Penywern, Mr O. Morris, Tynllechwedd, Mr W. Morris, Brynowen, Mr O.D. Owen, Berthlwyd, Mr J. Thomas, The Mill, Tre'rddôl and his nephew Mr L.O. Williams, Frongoch and Mr E.J. Williams, Cynnullmawr.

One of the first to register ponies was Mr D. Bodvel Morgan, Fronlas who registered Fronlas Peggy foaled in 1903 and bred by the late Sir Pryse Pryse of Gogerddan and sired by Klondyke, a well-known stallion owned and bred by John Thomas, Tre'rddôl. By 1910 Mr Bodvel Morgan and Mr O.D. Owen were on the panel of Inspection Judges of the Society. At the end of the 19th Century, Mr Owen's uncle, the Reverend Owen of Taihirion, Blaenpennal owned a famous stallion, Cardigan Briton and many of his progeny were recorded as 'sire: Ceffyl Pregethwr'. Mr Bodvel Morgan bred and owned Welsh ponies and cobs for many years, for example, Fronlas Model (foaled in 1921) who won second prize in class 32 (mares) at the 1924 Royal Welsh Show at Bridgend, Mr J.M. Jenkins, Cerrigcaranau winning a

yn ennill y bedwaredd wobr yn nosbarth 31 (meirch) gyda Caran Prince.

Y flwyddyn flaenorol ym 1923, cynhaliwyd Sioe Frenhinol Cymru yn y Trallwm ac enillydd yr ail wobr yn nosbarth y meirch oedd Cream Bun a oedd yn eiddo i Mr L. O. Williams o Dre'rddôl ac a fridiwyd gan Lewis Lewis, Tyngraig, Tal-y-bont allan o'i gaseg lwyd Aeronwen Ceulan a fridiwyd ym 1904 gan Mr Lewis o Ffynnonddu, Tal-y-bont. Yn ddiweddarach roedd Cream Bun yn bencampwr Sioe Frenhinol Cymru 1925 yng Nghaerfyrddin. Ym 1910 bridiodd Mr Lewis o Dyngraig Seren Ceulan allan o Aeronwen Ceulan; ei thad oedd Total, march a fridiwyd ac a oedd yn eiddo i John Thomas o Dre'rddôl a werthodd ef i Laurie Wilson o Seland Newydd. Tad Total oedd Klondyke, a oedd yn eiddo i John Thomas, a enillodd y wobr gyntaf yn Sioe Frenhinol Cymru (a alwyd y pryd hynny yn Sioe Genedlaethol Cymru) yn Aberystwyth ym 1905 a gwerthwyd ef yn y sioe i Mr Miller o Forest Lodge, Aberhonddu, am £100. Enillodd Aeronwen Ceulan y wobr gyntaf i Lewis Lewis yn Sioe Tal-y-bont ym 1930 pan oedd yn chwech ar hugain oed ac adroddwyd mewn papurau newydd ym 1934 (pan gafodd ei hŵyr**,** Ceulan Comet ei allforio i Awstralia) ei bod 'still alive and well and running out at Tyngraig'.

Gwerthwyd Seren Ceulan ym 1915 i Mr E.S. Davies o Mount Pleasant (Central Stores yn ddiweddarach), Tal-y-bont a dyma ddechrau Bridfa Ceulan sydd yn parhau yn llewyrchus ar ddechrau'r mileniwm. Enillodd Seren Ceulan y bencampwriaeth (medal arian Cymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig) i Mr E.S. Davies yn Sioe Tal-y-bont ym 1916 ac ailadroddwyd y llwyddiant hwn saith gwaith. Enillodd Seren Ceulan y wobr gyntaf a'r Pencampwr Wrth Gefn yn Sioe Frenhinol Cymru ym Mangor ym 1926 a'r Prif Bencampwriaeth yn Sioe Frenhinol Cymru Wrecsam ym 1928 gan deithio i'r sioeau ar y trên o Landre. Roedd ei mab Ceulan Comet yn Bencampwr Sioe Frenhinol Cymru ym 1931, 1932, a 1934 ac yna gwerthwyd ef am bris uchel i brynwr o Awstralia. Mab arall i Seren Ceulan a fridiwyd gan Mr Davies ac a oedd yn eiddo i'w dad-yng-nghyfraith Mr L.O. Williams o Dre'rddôl oedd Brenin Cymru (a anwyd ym 1925) ac a allforiwyd i'r Ariannin ym 1929. Bridiodd Mr E.S. Davies nifer o ferlod enwog o'r llinach hon; etholwyd ef yn

fourth prize in class 31 (stallions) with Caran Prince.

The previous year, 1923, the Royal Welsh Show was held at Welshpool and winner of second prize in the stallion class was Cream Bun owned by Mr L.O. Williams of Tre'rddôl and bred by Lewis Lewis of Tyngraig, Tal-y-bont out of his grey mare Aeronwen Ceulan who was bred in 1904 by Mr Lewis of Ffynnonddu, Tal-y-bont. Cream Bun was later champion at the 1925 Royal Welsh Show held at Carmarthen. Mr Lewis of Tyngraig in 1910 bred Seren Ceulan out of Aeronwen Ceulan; she was sired by Total, a stallion bred and owned by John Thomas of Tre'rddôl who sold him to Laurie Wilson of New Zealand. Total was sired by Klondyke, owned by John Thomas, who won a first prize at the Royal Welsh Show (then known as the Welsh National Show) at Aberystwyth in 1905 and he was sold at the show to Mr Miller of Forest Lodge, Brecon for £100. Aeronwen Ceulan won a first prize for Lewis Lewis at Tal-y-bont Show in 1930 when she was twenty six years old and newspaper reports in 1934 (when her grandson Ceulan Comet was exported to Australia) quoted that she was 'still alive and well and running out at Tyngraig'.

Seren Ceulan was sold in 1915 to Mr E.S. Davies of Mount Pleasant (later Central Stores), Tal-y-bont and this was the start of the Ceulan Stud which is still flourishing at the start of the millennium. Seren Ceulan won the championship (the Welsh Pony and Cob Society silver medal) for Mr E.S. Davies at Tal-y-bont Show in 1916 and she repeated this success another seven times. Seren Ceulan won first prize and Reserve Champion at the 1926 Royal Welsh Show at Bangor and Supreme Champion at the Royal Welsh Show at Wrexham in 1928, travelling to the shows by rail from Llandre. Her son, Ceulan Comet was Royal Welsh Champion in 1931, 1932 and 1934 and then sold for a big price to a buyer from Australia. Another son of Seren Ceulan bred by Mr Davies and owned by his father-in-law Mr L.O. Williams of Tre'rddôl was Brenin Cymru (foaled in 1925) who was exported to the Argentine in 1929. Mr E.S Davies bred many famous ponies from this strain; he was elected President of the Welsh Pony and Cob Society in 1955.

Wynne Davies a Dinarth What Ho, Pencampwr, Sioe Frenhinol Cymru, 1952

Wynne Davies and Dinarth What Ho, Champion, Royal Welsh Show, 1952

Llywydd Cymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig ym 1955.

Roedd ei fab, Dr Wynne Davies, yn Llywydd ym 1984, a derbyniodd yr M.B.E. ym 1996. Mae merlod a chobiau Cymreig Ceulan i'w gweld dros y byd i gyd, ac yn fwy diweddar, enillont wobrau cyntaf yn Sioe Frenhinol Cymru ym 1991, 1992, 1994 a 1999; pencampwriaethau yn Sioe Frenhinol Lloegr ym 1994, 1997, 1998 a 1999; pencampwr merlod o deip y cob yn Toronto ym 1997 a Phencampwr Wrth Gefn y Merlod Mynydd yn Sweden ym 1998.

Bu merch Mr Davies, Mrs Anne Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont ynghyd a'i gŵr Gwilym yn bridio nifer o ferlod yn ystod y saithdegau o dan yr enw, 'Tanyrallt'; gwerthwyd nifer ohonynt ar gyfer eu hallforio yn Arwerthiant Fayre Oaks Henffordd. Bridiwyd rhai merlod hefyd gan wyres Mr Davies, sef Mrs Janet Fry o dan yr enw, 'Ceulan(J)'.

Bridiwyd Ladi Lwyd gan Mr Williams, Cynnullmawr ym 1915 a nifer o ferlod da allan ohoni gan gynnwys Cynnull Ladi Lwydnos ym 1937 a oedd yn fam i Cynnull Cymraes gan y march a'r cob Cymreig enwog Brenin Gwalia ym 1951.

His son, Dr Wynne Davies, was President in 1984 and was awarded the M.B.E. in 1996. Ceulan Welsh ponies and cobs are to be found all over the world and most recently won first prizes at the Royal Welsh shows in 1991, 1992, 1994 and 1999; championships at the Royal of England in 1994, 1997, 1998 and 1999; champion pony of cob-type at Toronto in 1997 and Reserve Champion Mountain Pony in Sweden in 1998.

Mr Davies' daughter Mrs Anne Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont with her husband Gwilym bred many ponies in the seventies under the 'Tanyrallt' prefix, several of which were sold for export at the Hereford Fayre Oaks Sales. Mr Davies' grand-daughter Mrs Janet Fry also bred some ponies under the 'Ceulan(J)' prefix.

Mr Williams, Cynnullmawr, bred Cynnull Ladi Lwyd in 1915 and several good ponies out of her including Cynnull Ladi Lwydnos in 1937 who bred Cynnull Cymraes by the famous Welsh cob stallion, Brenin Gwalia in 1951.

Mr Tom Jenkins, postman, Tal-y-bont used the Ceulan prefix before Mr E.S. Davies and bred Ceulan Snowflake in 1910

Defnyddiai Mr Tom Jenkins, postmon, Tal-y-bont yr enw Ceulan cyn Mr E.S. Davies a bridiwyd Ceulan Snowflake ganddo ym 1910 ond ni pharhaodd i gofrestru ei ferlod a'i gobiau.

Caseg lwyddiannus iawn mewn sioeau oedd Cwmcau Lady Jet a fridiwyd gan W.T. ac O.M. Evans o Gwmcau ym 1919; enillodd yr ail wobr i'w bridwyr yn Sioe Tal-y-bont ym 1924, medal Cymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig yn Llanrhystud ym 1925 ac yn Nhal-y-bont ym 1928. Yna gwerthwyd hi i'r Meistri John Jones a'i Fab, Bridfa Dinarth Hall, Bae Colwyn ac enillodd y wobr gyntaf yn Sioe Frenhinol Cymru ym 1930 (Caernarfon), 1932 (Llandrindod), 1933 (Aberystwyth), 1934 (Llandudno) a'r ail wobr ym 1935 (Hwlffordd) ac fe'i gwerthwyd hi wedyn yn Arwerthiant Dinarth Hall ym mis Awst 1935.

Prynwyd merlen fynydd Gymreig Revel Just So gan Mr D.P. Morgan, Garej Davmor oddi wrth Fridfa Revel, Talgarth ym 1953 a gwerthodd hi i America ynghyd a'i merch Siân-yr-Efail (a fridiwyd ganddo) ac a anwyd ym 1954. Prynodd Wellfield Sheila yn eu lle (yn Arwerthiant Wellfield ym 1961). Ei frawd Johnny Morgan oedd y gof a fu'n gyfrifol am bedoli yr holl bencampwyr, merlod a cheffylau, o Dal-y-bont.

Bu Mrs Marie Edwards a Mr Jenkin Morris, Lletyllwyd yn bridio merlod mynydd gan ddefnyddio eu march Gredington Balch a'u caseg gwreiddiol Bowdler Birdsong a anwyd ym 1972. Un eboles a fridiwyd ac a gofrestrwyd ganddynt oedd Sulgwyn Synod (a anwyd ym 1975) ac y mae hi'n dal i fagu merlod mynydd o dan yr enw 'Lletyllwyd' . Teulu arall o Bowdler Birdsong yw Seren Fore (a anwyd ym 1977), merch i'r cob Cymreig Felin Comet ap Meredith a'i merch Seren Mai o'r cob Cymreig Derwen Arthur. Merch Seren Mai, Lletyllwyd Seren Haf, sydd yn eiddo i Mrs Russell o Lanarth oedd Pencampwr Wrth Gefn y Cobiau Cymreig Dan Gyfrwy yn Sioe Aberystwyth 1999.

Ymunodd Dr Lloyd Davies â Chymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig ym 1962 gan ddechrau gyda'r gaseg lwyd Bowdler Bronwen (a anwyd ym 1963) a'r gaseg palomino Penyworlod Honey Sweet (a anwyd ym 1967). Cafwyd rhai o'r meirch gorau i'r cesig hyn, naill ai drwy brynu megis Valleylake Brewer (a anwyd ym 1969) neu a brydleswyd, er enghraifft, y ddau but did not continue registering his ponies and cubs.

A very successful show cob mare was Cwmcau Lady Jet bred by W.T and O.M. Evans of Cwmcau in 1919. She won a second prize for her breeders at Tal-y-bont show in 1924, the Welsh Pony and Cob Society medal at Llanrhystyd in 1925 and at Tal-y-bont in 1928. She was then sold to Messrs John Jones and Son Dinarth Hall Stud, Colwyn Bay and won first prizes at Royal Welsh shows in 1930 (Caernarfon), 1932 (Llandrindod), 1933 (Aberystwyth), 1934 (Llandudno) and second prize in 1935 (Haverfordwest) and she was then sold in the Dinarth Hall Sale in August, 1935.

Mr D.P. Morgan, Davmor Garage bought the Welsh mountain pony mare Revel Just So from the Revel Stud, Talgarth in 1953 and sold her to a buyer from America along with her daughter, Siân-yr-Efail (which he bred) foaled in 1954. He replaced these with Wellfield Sheila, bought in the Wellfield Sale in 1961. His brother Johnny Morgan was the blacksmith responsible for shoeing all the champion ponies and cobs from Tal-y-bont.

Mrs Marie Edwards and Mr Jenkin Morris, Lletyllwyd bred mountain ponies using their stallion Gredington Balch and original mare Bowdler Birdsong which was foaled in 1972. One daughter which they bred was registered as Sulgwyn Syndod (foaled in 1975) and she is still breeding mountain ponies under the 'Lletyllwyd' prefix. Another family from Bowdler Birdsong is Seren Fore (foaled in 1977) by the Welsh cob Felin Comet ap Meredith and her daughter Seren Mai by the Welsh cob Derwen Arthur. Seren Mai's daughter, Lletyllwyd Seren Haf, owned by Mrs Russell of Llanarth was Reserve Champion Ridden Welsh Cob at the 1999 Aberystwyth Show.

Dr Lloyd Davies joined the Welsh Pony and Cob Society in 1962 starting with the grey mare Bowdler Bronwen (foaled in 1963) and the palomino mare Penyworlod Honey Sweet (foaled in 1967). Some of the top sires were acquired for these mares, either bought, such as Valleylake Brewer (foaled in 1969) or leased, for example, the two exceptional palomino stallions leased from the Revel, Revel South Drift (foaled in 1968) and Revel Patron (foaled in 1971)

farch palomino eithriadol a brydleswyd oddi wrth y Revel, Revel South Drift (a anwyd ym 1968) a Revel Patron (a anwyd ym 1971) ac yn fwy diweddar Derwen Matthew (a anwyd ym 1977). Cadwyd rhai o'r ebolesau ymlaen fel cesig magu yn y caeau y tu ôl i Westy'r Llew Du, gydag eraill yn mynd ymlaen i fridfeydd enwog eraill i'w hallgroesi.

Mr D.R. Thomas oedd perchennog y fridfa enwog gynharaf yn Nhal-y-bont sef Bridfa Tanyrallt o geffylau hacni a merlod yn seiliedig ar Lyndhurst Paula a fridiwyd gan Syr Gilbert Greenall, Warrington ym 1903 ac a fu yn bencampwr Llundain bedair gwaith. Roedd nifer o'r dynion cyfoethocaf ym Mhrydain yn bridio ceffylau hacni ar yr adeg honno, er engraifft, Syr Walter Gilbey ('gin' Gilbey), Syr Gilbert Greenall, Mr William Burdett-Coutts (Banc Coutts), Syr Nigel Colman (mwstard Colman) ac roedd pencampwyr Llundain yn cael eu gwerthu am sawl mil o bunnoedd.

Y ferlen enwocaf a fridiwyd ym Mridfa Tanyrallt oedd Tanyrallt Fireboy, mab Lyndhurst Paula a anwyd ym 1908 ac a oedd yn Bencampwr Wrth Gefn yn Sioe Hacni Llundain ym 1912. Cyflogai Mr Thomas, Ted Sowerby, un o hyfforddwyr hacni gorau and more recently Derwen Matthew (foaled in 1977). Some of the daughters were kept on as brood mares in the fields behind the Black Lion Hotel; others have gone on as outcrosses to other well-known studs.

The earliest famous stud at Tal-y-bont was Mr D.R. Thomas' Tanyrallt Stud of hackney horses and ponies based on Lyndhurst Paula, bred by Sir Gilbert Greenall, Warrington in 1903 and four times London champion. Many of the wealthiest men in Britain were breeding hackneys in those days, for example, Sir Walter Gilbey (of Gilbey's gin), Sir Gilbert Greenall, Mr William Burdett-Coutts (of Coutts Bank), Sir Nigel Colman(of Colman's mustard) and London champions were changing hands at several thousand pounds.

The best known pony bred at Tanyrallt Stud was Tanyrallt Fireboy, son of Lyndhurst Paula, foaled in 1908 and a Reserve Champion at the 1912 London Hackney Show. Mr Thomas employed Ted Sowerby, one of the best hackney trainers in Britain, to train his hackneys. Mr Sowerby produced hackneys for various owners until the fifties. Mr Thomas held biennial sales at Tanyrallt selling 31 in 1912 and 39 in 1914. A

TANYRALLT PONY STALLIONS.

TANYRALLT FIREBOY 11229.

Hackney Pony Stallion, Bay, Foaled 1908.
TWICE ROYAL WINNER AND RESERVE LONDON CHAMPION.
His Dam: Four times London Champion—16780 LYNDHURST PAULA.
G. dam: The CHAMPION MERRY POLLY.
Stud Fees £5 5s. and 5s. Groom.
BOTH Stallions hold the Board of Agriculture Certificate of soundness for 1919, also Hackney Society's.

Apply to—
Mr. D. R. THOMAS,
Tanyrallt Pony Stud, Talybont, Cardiganshire.

SIRE OF ACTION

TANYRALLT SIR HORACE
12749.

Bay, foaled 1912. 13.2 h.h.

BOTH Passed sound this year by the Board of Agriculture.

Sire: Sir Horace 5402.
Dam: 8622 Ailsa, by Goldfinder VI.

He is full brother of
13219 Ailette, Woodland Eaglet 8339, and Mel Valley Prince of Holland, all London Winners, also full brother to 19608 Tissington Amity, 1st London and Champion, New York;

Sold for a record price, said to be two thousand guineas.

Inspection of his stock invited, several will be shown at Royal Show, Cardiff.

Apply—
Mr. D. R. THOMAS,
Tanyrallt Pony Stud, Talybont, Cardiganshire.

Prydain i hyfforddi ei geffylau hacni. Bu Mr Sowerby yn cynhyrchu ceffylau hacni ar gyfer amrywiol berchenogion hyd at y pumdegau. Cynhaliai Mr Thomas arwerthiant bob dwy flynedd yn Nhanyrallt gan werthu 31 ym 1921 a 39 ym 1914. Gwerthwyd ceffyl dwy flwydd oed, Tanyrallt Wonder, am 92 gini yn arwerthiant 1912, un arall dwy flwydd oed, Tanyrallt Wonderful, am 86 gini gyda'r ebolion yn gwerthu am rhwng 20 a 40 gini, prisiau y gellir eu lluosi â 60 er mwyn cymharu a phrisiau heddiw. Gwerthwyd Tanyrallt Fireboy am 675 gini yn arwerthiant 1914 a thalwyd rhwng 30 a 100 gini am nifer o rai ifanc. Cynhaliwyd arwerthiant terfynol ceffylau hacni Tanyrallt ar Orffennaf 24, 1925 pan werthwyd 46 o geffylau a merlod a gwerthwyd y wagenni sioe a'r harnais ond roedd hi'n ddechrau cyfnod y dirwasgiad ac roedd prisiau yn isel, rhwng 3 a 30 gini ar gyfer stoc ifanc a dim ond y march Tanyrallt Rufus a werthwyd am fwy na 40 gini (talwyd 210 gini amdano). Roedd meirch Tanyrallt, a oedd o'r safon gorau ym Mhrydain, yn ddylanwad mawr ar safon bridio merlod yn yr ardal.

Wynne Davies

two year old colt Tanyrallt Wonder sold for 92 guineas in the 1912 sale, another two year old, Tanyrallt Wonderful sold for 86 guineas and the foals sold for between 20 and 40 guineas, prices which can be multiplied by 60 to bring up to today's values. Tanyrallt Fireboy was sold for 675 guineas in the 1914 sale and several youngsters made between 30 and 100 guineas. The dispersal sale of the Tanyrallt hackneys was held on 24th July, 1925 when 46 horses and ponies and the show waggons and harness were sold but it was the start of the depression years and prices were low, between 3 and 30 guineas for young stock and only the stallion Tanyrallt Rufus selling for over 40 guineas (he fetched 210 guineas). The availability of the Tanyrallt stallions of the best breeding available in Britain had a big influence on the standard of pony breeding generally in the locality.

Wynne Davies